

Cronfa Grantiau Cydweithredol – 2025/26

Cyflwyniad

1. Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol [**y Coleg**] yn gwahodd ceisiadau ar gyfer ei **Gronfa Grantiau Cydweithredol**.
2. Prif bwrpas y Gronfa Gydweithredol yw cefnogi darpariaeth (modiwlau) a gweithgareddau (gan gynnwys cynadleddau) cyfrwng Cymraeg fydd yn cyfoethogi profiad myfyrwyr yn y sector addysg uwch. Gall hyn gynnwys gweithgareddau pontio neu ddilyniant at addysg uwch neu weithgareddau sy'n cyfrannu at brofiad myfyrwyr cyfredol.

Cynlluniwyd cyllideb y Gronfa Gydweithredol ar sail y dyraniad grant arfaethedig gan Lywodraeth Cymru yn 2025/26. Ni fydd llawer o hyblygrwydd yn y gyllideb ac o ganlyniad mae'n debygol na fydd modd cefnogi cynifer o weithgareddau cydweithredol ag a gefnogwyd mewn blynyddoedd cynt.

Canllawiau

3. Mae'r Gronfa Gydweithredol yn cefnogi gweithgareddau fydd yn digwydd rhwng 1 Medi 2025 a 31 Gorffennaf 2026. Ni fydd modd estyn gweithgareddau neu fodiwlau i flwyddyn academaidd arall.
4. Yn ogystal â gweithgareddau a modiwlau cydweithredol, mae'r gronfa yn agored i geisiadau am gyfraniad ariannol i gefnogi **cynnal cynhadledd**. Yn achos cynadleddau bydd y Coleg yn barod i ystyried ceisiadau am gefnogaeth resymol, fel arfer rhwng tua £1,000 a £2,500.
5. Mae'n ddisgwyliad bod **myfyrwyr mewn mwy nag un sefydliad** yn elwa ar weithgareddau a ariennir o'r Gronfa hon, boed yn fodiwl, gweithgaredd neu gynhadledd.
6. Os yw'r gweithgaredd cydweithredol neu gynhadledd wedi'i anelu at **ddarparfyfyrwyr** yn hytrach na myfyrwyr prifysgol, dylid nodi yn glir sut y byddai'r gweithgaredd yn cefnogi dilyniant.

7. Nid oes modd cefnogi gweithgaredd sydd wedi'i gynllunio i recriwtio ar gyfer sefydliad unigol os oes darpariaeth Gymraeg yn y pwnc ar gael mewn mwy nag un lleoliad.
8. Rhaid i reolwyr prosiectau fod yn gyflogedig mewn sefydliad ac adran sy'n darparu addysg uwch.
9. Mae'r Coleg yn cydnabod mai mater i'r sefydliadau unigol yw gosod a chynnal safonau academaidd, gan gynnwys sicrhau ansawdd a phrofiad y myfyrwr.

Serch hynny, mae'r Coleg yn disgwyl fod gan bob sefydliad gytundeb mewn lle ar gyfer modiwlau cydweithredol. Gall y Coleg gynnig templed enghreifftiol (a ddatblygwyd mewn ymgynghoriad gyda'r QAA) o gytundeb pwrpasol i'w ddefnyddio, ond mater i'r sefydliadau yw cytuno manylion y cydweithio a mabwysiadu cytundeb ffurfiol **CYN** bod modiwl cydweithredol yn cael ei ddarparu i fyfyrwr. Os na chyflawnir hyn, ni fydd modd i'r modiwl cydweithredol gario enw'r Coleg, nac ychwaith dderbyn cyllid oddi wrth y Coleg.

Gofynnir i chi lenwi Atodiad B ar gyfer POB modiwl cydweithredol. Bydd angen fod pob modiwl cydweithredol wedi'u cynnwys mewn cytundeb rhwng sefydliadau.

10. Fel arfer, disgwylir i'r sefydliad / sefydliadau dalu costau cynnal unrhyw weithgaredd sy'n rhan o addysg ffurfiol eu myfyrwr (e.e. costau staff addysgu). Fodd bynnag, weithiau bydd rhai costau ychwanegol neilltuol oherwydd natur cydweithredol y weithgaredd. Bydd y Coleg yn barod i ystyried darparu rhywfaint o gyllid i dalu am y costau neilltuol hynny.
11. Ni fydd y Coleg fel arfer yn cefnogi cost prynu offer.
12. Bydd y Coleg yn adolygu ei ymrwymiad i gyllido gweithgareddau cydweithredol a chynadledau unigol bob blwyddyn.

Amodau

13. Dylid sicrhau fod sylw priodol yn cael ei roi i amrywiaeth, cydraddoldeb a gwrth-hiliaeth wrth drefnu unrhyw brosiectau, weithgareddau neu ddigwyddiadau, a dylid cyfeirio at hyn yn y ceisiadau. Mae blychau priodol yn y ffurflenni i nodi'r ystyriaethau hyn. Dylid o leiaf nodi syniadau ynghylch sut i roi ystyriaeth i'r agenda hwn. Cysylltwch â Chydlynnydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Gwrth-

hiliaeth y Coleg, Emily Pemberton am ragor o wybodaeth.

e.pemberton@colegcymraeg.ac.uk

14. Bydd unrhyw adnoddau a ddatblygir ar ôl derbyn cyllid drwy'r Gronfa Gydweithredol, e.e. recordiad o weithdy yn cael eu rhannu ar [Porth Adnoddau'r Coleg](#). Mae [Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff Sector Cyhoeddus \(Gwefannau a Rhaglenni Symudol\) \(Rhif 2\) 2018](#) yn golygu bod gan sefydliadau sector cyhoeddus ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau bod unrhyw gynnwys digidol sy'n cael eu rhannu ar-lein (e.e. gwefannau, apiau, fideos, modiwlau rhyngweithiol, ffeiliau Word, pdf, a phwerbwyntiau) yn cyrraedd safonau [Canllawiau Hygyrchedd Cynnwys Ar-lein \(WCAG\)](#). Er mwyn cynhyrchu cynnwys sy'n bodloni'r gofynion hyn, disgwylir i ymgeiswyr ddarllen [Canllawiau Hygyrchedd y Coleg Cymraeg \(Atodiad Ch\) ar gyfer creu adnoddau](#) cyn paratoi cais i'r Gronfa, a sicrhau fod yr elfennau priodol wedi eu costio'n rhan o'r cynllun e.e. pris darparu capsynau ar gyfer unrhyw fideos.
15. Trwyddedir adnoddau/cyhoeddiadau ar lwyfannau e-ddysgu'r Coleg o dan drwydded *Creative Commons* e.e. [CC BY-SA 4.0](#) oni bai y ceir amgylchiadau arbennig, ac y cytunwyd yn ysgrifenedig ar yr amgylchiadau arbennig hynny, gan y Coleg cyn dyfarnu'r grant. Cyfrifoldeb rheolwr y prosiect yw sicrhau bod cyfranwyr eraill at y prosiect yn ymwybodol o'r drefn hon, ac yn cydsynio iddi. Bydd hyn yn golygu sicrhau fod cyfranwyr yn cwblhau ffurflen ganiatâd. Cyfrifoldeb rheolwr y prosiect yw clirio hawlfraint. Dylid nodi ar ba ffurf y rhagwelir cyhoeddi unrhyw adnodd a fydd yn deillio o'r prosiect a pha gamau a gymerir er mwyn gosod trwydded *Creative Commons* ar yr adnodd.
16. Dylid sicrhau fod termau a ddefnyddir mewn unrhyw adnoddau neu gyhoeddiadau fydd yn deillio o gais llwyddiannus yn gywir a safonol drwy gyfeirio at [Geiriadur Termau](#) y Coleg Cymraeg. Os rhagwelir y bydd y cais yn arwain at greu adnodd neu gyhoeddiad fydd yn cynnwys termau sydd angen eu safoni, dylid nodi hynny yn y cais fel y gellid trefnu cefnogaeth termau yn ôl y gofyn.
17. Disgwylir i unrhyw waith marchnata / cyhoeddusrwydd gan y sefydliad mewn perthynas â gweithgaredd neu gynhadledd a gefnogwyd drwy grant wrth y Coleg gydnabod nawdd y Coleg ar bob achlysur, boed hynny mewn print, ar-lein neu gyfryngau megis y teledu a radio. Dylid sicrhau bod y gydnabyddiaeth i'r Coleg a'r logos yn cael eu defnyddio'n gywir yn unol â [Chanllawiau Brand y Coleg \(2023\)](#).

Gwerthuso ac Adrodd

18. Mae'r Coleg yn awyddus i glywed barn y gynulleidfa dan sylw (boed yn fyfyrwr, darpar-fyfyrwr neu aelodau'r cyhoedd) ar fodiwlau/gweithgareddau a chynadleddau cydweithredol. Gofynnir i reolwyr prosiectau sicrhau bod prosesau yn eu lle i gasglu adborth. Gall y Coleg ofyn am gael gweld copïau electronig o ffurflenni adborth mewn sampl o weithgareddau a modiwlau cydweithredol bob blwyddyn.
19. Ar ddiwedd y modiwl/gweithgaredd bydd y Coleg yn darparu ffurflen Adroddiad Diwedd Prosiect. Yn yr adroddiad, gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth am (i) brif ddeilliannau'r weithgaredd, (ii) a'r niferoedd o bob sefydliad a gymerodd ran (iii) gwir wariant. Wrth gyfrifo gwir wariant, dylid ystyried costau TAW, lle'n berthnasol. Dylid cynnwys lluniau o'r digwyddiad a thystiolaeth o unrhyw ddeunydd marchnata i ddangos sut y cydnabuwyd nawdd y Coleg a brandio'r Coleg. Rhaid cyflwyno'r ffurflen hon wedi ei chwblhau'n llawn ar ôl i'r weithgaredd gael ei chynnal, ac o fewn dim mwy na mis i'r weithgaredd neu ddiwedd y modiwl.
20. Bydd y Coleg yn cynnal adolygiad ar sampl o weithgareddau a modiwlau'n flynyddol.

Ymholiadau pellach

21. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau at prosiectau@colegcymraeg.ac.uk

Cyflwyno ceisiadau

22. Dylid cyflwyno'r cais, yn Gymraeg, ar y ffurflen gais berthnasol (ar ffurf electronig) trwy anfon y ffurflen at prosiectau@colegcymraeg.ac.uk erbyn **canol dydd, 4 Ebrill 2025**.

Pa ffurflen ddylen ni ei chwblhau?

Atodiad A

Ffurflen Gweithgaredd Cydweithredol a Chynadleddau. Mae'r ffurflen hon yn berthnasol ar gyfer unrhyw weithgaredd cydweithredol nad yw'n fodiwl sydd wedi'i achredu, ond sy'n rhan o weithgaredd traws-sefydliadol ac yn cefnogi darpariaeth a/neu'n cyfoethogi profiad y myfyriwr mewn rhyw ffordd.

Atodiad B

Ffurflen ar gyfer modiwlau cydweithredol.

Atodiad C

Ffurflen Adroddiad Diwedd Prosiect - ar gyfer adrodd ar weithgareddau cydweithredol, cynadleddau a modiwlau a gefnogwyd gan y Coleg. Rhaid cyflwyno'r ffurflen hon wedi ei chwblhau'n llawn ar ôl i'r weithgaredd gael ei chynnal, ac o fewn dim mwy na mis i'r weithgaredd neu ddiwedd y modiwl.